

2012 | O Gwmpas

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd & Dyffryn Dyfrdwy
a chefn gwlad Sir Ddinbych



Hwyl i'r Teulu Cyfan, Cerdded,
Beicio a llawer mwy **AM DDIM**

Croeso

Bydd rhaglen gweithgareddau, digwyddiadau a theithiau cerdded 2012 yn gyfle gwych i chi droedio Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd & Dyffryn Dyfrdwy a chefn gwlad Sir Ddinbych a'r fro.

Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau ein rhaglen y llynedd. Rydym ni wedi bod yn brysur iawn yn darllen eich sylwadau fel bod modd i ni lunio rhaglen well fyth ar gyfer 2012.

Mae'r rhaglen eleni yn cynnwys nifer fawr o weithgareddau gwahanol. Mae'r holl ddigwyddiadau wedi'u rhestru yma, ond er mwyn eich cynorthwyo i ddewis y gweithgaredd mwyaf addas ar eich cyfer chi rydym ni wedi defnyddio symbolau arbennig. Cofiwch gwblhau'r ffurflen adborth sydd wedi ei hatodi a'r taflenni gwerthuso ar ôl y digwyddiad.

Bydd arnoch angen cadw lle rhai diwrnodau ymlaen llaw i gymryd rhan yn unrhyw un o'n digwyddiadau i'r teulu sydd â'r symbol . Bydd gofyn i chi hefyd gadw lle ar yr holl deithiau cerdded er mwyn i ni sicrhau fod yna ddigon o staff ar gael ar gyfer y teithiau. Os nad ydych chi'n gallu dod ar ôl cadw lle, rhwch wybod i ni fel bod modd i ni gynnig y lle i rywun arall.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau mynd o gwmpas ein hardal hyfryd.



Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Parc Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych. CH7 5LH

☎ 01352 810614 E-bost: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Cyngor Sir Ddinbych

www.cefngwladsirddinbych.org.uk

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

www.visitclwydianrange.co.uk

Rydym ni wedi derbyn arian grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i greu'r llyfryn hwn a chynnal y digwyddiadau.



I wybod mwy am ein digwyddiadau diweddaraf, cliciwch i ddweud eich bod yn hoffi tudalen Facebook Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Sganiwch y cod yma gyda'r gosodiad darllen cod QR ar eich ffôn



Manylion defnyddiol i'ch cynorthwyo i ddewis y gweithgaredd neu ddigwyddiad mwyaf addas ar eich cyfer chi;

	Awgrym oed
	Hwylus i gadeiriau olwyn
	Angen talu
	Angen cadw lle
	Dim angen cadw lle
	Bws am ddim
	Taith hawdd
	Taith gymhedrol
	Taith anodd
	Cŵn ar dennyn yn unig
	Gwirfoddoli
	Beicio

Byddwn yn tynnu lluniau yn y rhan fwyaf o'n digwyddiadau er mwyn eu defnyddio mewn taflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd yn y dyfodol. Os nad ydych chi'n fodlon i ni wneud hyn rhowch wybod i un o arweinwyr y digwyddiad.

 Efallai na fydd y digwyddiad yma yn addas i bobl ifanc sy'n iau na'r oedran wedi ei nodi. Fe ddylai plant fod yng nghwmni oedolyn bob amser.

 Mynediad i gadeiriau olwyn.

 Byddwn yn codi tâl ar gyfer y digwyddiad yma

 Cofiwch edrych am y symbol yma ar gyfer digwyddiadau i'r teulu y bydd yn rhaid i chi gadw lle ar eu cyfer. Cofiwch gadw lle yn ystod y 7 diwrnod cyn y digwyddiad. Os na fyddwch yn gallu dod cofiwch roi gwybod i ni fel bod modd i ni gynnig eich lle i rywun arall. Mae croeso i glybiau gwyliau a gofawyr â 4 o blant neu fwy ddod i'n digwyddiadau lle na fydd yn rhaid cadw lle. Mi fydd y digwyddiadau'n brysur felly, efallai bydd yn rhaid i chi ddisgwyl eich tro. Yn anffodus ni fydd modd i ni dderbyn grwpiau i'r digwyddiadau y mae gofyn i chi gadw lle ar eu cyfer.

 Edrychwch am y symbol yma ar gyfer digwyddiadau i'r teulu lle na fydd yn rhaid cadw lle.

 Yn ystod yr haf bydd yna fws wennol yn mynd am ddim o Foel Famau i Loggerheads er mwyn lleihau tagfeydd traffig, gwelwch dudalen 27.

Teithiau Tywys

Rydym ni wedi creu amrywiaeth eang o deithiau cerdded yn arbennig ar eich cyfer chi.

 Taith gerdded fer ar lwybr caled

 Hawdd (Taith fer ar lwybr caled gydag arwyneb rhydd mewn rhai mannau)

 Canolig (Rhaid mannau serth ac arwyneb rhydd mewn rhai mannau)

 Anodd (Taith gerdded hir a chaled, tir serth ac anwastad)

GWISGWCH ddillad llac a chyffyrddus ac esgidiau cryfion neu dreinyrs. Gofalwch bod digon o afael arnyn nhw rhag i chi lithro!

DEWCH Â dillad glaw os ydi hi'n gaddo glaw, diod a rhywbeth i'w fwyta.

 Fel rheol nid ydym yn caniatáu CŴN ar ein teithiau tywys. Serch hynny, bydd croeso i gŵn ddod ar rai o'n teithiau cerdded, edrychwch am y symbol. Gofalwch bod eich ci ar dennyn.

Ewch i www.gridref.org.uk i ganfod man cychwyn y teithiau cerdded – ysgrifennwch y cyfeiriad grid yn y blwch chwilio a bydd y map priodol yn ymddangos.

Byddwn yn ymdrechu i beidio â chanslo unrhyw daith gerdded. Ond os bydd gorfod i ni wneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i'r rheiny sydd wedi cadw lle.

Byddwn yn cerdded ar GYFLYMDER y cerddwr fwyaf araf. Peidiwch ag ymuno â ni ar y teithiau cerdded os ydych chi ar frys!

Mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cyhoeddi rhaglen wirfoddoli ddwywaith y flwyddyn. Yn y rhaglen bydd manylion yr holl gyfleoedd i warchod ein cefn gwlad a'n hanifeiliaid gwyllt ac i ddysgu sgiliau traddodiadol a chadw'n heini ar yr un pryd.



Edrychwch am weithgareddau â'r symbol yma i chi gael blas ar ddigwyddiadau gwirfoddol. Bydd copi o'r Rhaglen Wirfoddoli ar www.cefnwladssirddinbych.org.uk.

Gwisgwch hen ddillad! Dewch ag esgidiau cryfion cyfforddus gyda digon o afael, dillad glaw a pheccyn bwyd.

Byddwn yn cynnig hyfforddiant llawn.

Gofalwch eich bod wedi derbyn pigiad tetanws yn ddiweddar!

Her 100 milltir o Amgylch y Sir

Ymunwch â ni ar un (neu fwy) o Heriau'r Sir 2012

Teithiau Cerdded o amgylch y Sir, ydych chi'n barod am yr her?

Gwelwch restr y digwyddiadau unigol am fwy o fanylion.

Lle	Milltiroedd	Dyddiad	Tudalen
Bodfari - Cyffylliog	10	Dydd Mercher Chwefror yr 22ain	7
Cyffylliog – Glan y gors	6 1/2	Dydd Mawrth Mawrth yr 20fed	8
Glan y Gors - Maerdy	8	Dydd Mercher Ebrill y 18fed	10
Maerdy - Corwen	9	Dydd Iau Mai'r 3ydd	11
Corwen - Glyndyfrdwy	10	Dydd Iau Mai'r 31ain	12
Glyndyfrdwy - Llangollen	9	Dydd Mercher Mehefin yr 20fed	14
Llangollen - Llandegla	9 1/2	Dydd Mercher Gorffennaf yr 11eg	15
Llandegla – Clwyd Gate	6	Dydd Mawrth Awst y 14eg	19
Clwyd Gate - Llangwyfan	7	Dydd Iau Awst y 30ain	21
Llangwyfan - Rhualt	8 1/2	Dydd Llun Medi'r 17eg	23
Rhualt - Prestatyn	8 1/2	Dydd Iau Hydref y 4ydd	24
Prestatyn - Rhyl	8	Dydd Mercher Tachwedd y 14eg	25

Dewch i **ddathlu** faint o filltiroedd gerddoch chi.
Dydd Mercher, Tachwedd y 14eg ym Mhwll Cae Brics,
Y Rhyl. Tystysgrifau a lluniaeth.

Chwefror yr 11eg – 19eg
Hanner Tymor

Dydd Mawrth, Chwefror y 14eg

Plygu Helyg

10yb – 3yp

Cyfle i'r holl deulu wirfoddoli a phlygu helyg i wneud ffens ar lan yr afon ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Dydd Mercher, Chwefror yr 22ain

**O gwmpas y Sir 1
Bodfari i Cyffylliog**

9.30yb – 4.30yp

Ymunwch â ni ar daith 10 milltir ar hyd Dyffryn Clwyd yng nghysgod godidog Bryniau Clwyd.

Byddwn yn cerdded ar hyd rhan o estyniad newydd Llwybr Hiraethog. Bydd bws wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith. Cyfarfod y tu allan i dafarn y Llew Coch, Cyffylliog, SJ060578.



Dydd Iau, Chwefror y 23ain – Dydd Gwener, Chwefror y 24ain

Creu Blychau Compost

10yb – 3yp

Deuddydd i adeiladau blychau cryfion i ddal compost yn y lotments cymunedol sydd ar eu newydd wedd yng nghoedwig gymunedol Prestatyn. Cyfarfod ym Maes Parcio Coed Morfa ym Mhrestatyn.

Dydd Llun, Mawrth y 5ed

Cerddoriaeth yng Nghaffi Florence
2yh – 4yh

Gorffennwch eich taith gerdded mewn steil a chysur neu ewch i fwynhau cerddoriaeth dda mewn lleoliad syfrdanol. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Sul, Mawrth y 18fed

Rhywbeth Arbennig ar Sul y Mamau

Cinio a the bach ym Mharc Gwledig Loggerheads i ddathlu Sul y Mamau. Ewch i: www.caffiflorence.co.uk

☎ 01352 810397



Dydd Mawrth, Mawrth yr 20fed

O gwmpas y Sir 2 Cyffylliog i Glan y Gors

10yb – 4yp

Dewch i gerdded 7 milltir ar hyd Llwybr Brenig gan deithio trwy Goedwig Clocaenog ac edrych ar olygfeydd rhyfeddol Bryniau Clwyd ym Mhincyn Llŷs.

Cyfarfod ym maes parcio Glan y Gors lle bydd trafnidiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith, SJ048518.



Dydd Sadwrn, Mawrth y 24ain

Taith Gyfeiriannu

10yb – 3yp

A fyddwch chi'n cwblhau'r cwrs cyfeiriannu newydd yng ngerddi hanesyddol hyfryd Plas Newydd Llangollen? Galwch heibio i ymuno yn yr hwyl gyda theuluoedd eraill. Os na fyddwch chi'n gallu ymuno â ni ar y dyddiad yma, beth am brynu map cyrsiau cyfeiriannu yn y siop ym Mhlas Newydd. Cofiwch alw heibio am fwy o fanylion. Plas Newydd, Llangollen.



Dydd Sadwrn, Mawrth yr 31ain

Marathon Caledfwlch

Dewch i gymryd rhan ym Marathon Traws Gwlad galetaf gwledydd Prydain! Byddwch yn cerdded/rhedeg yr her elusennol hon ar hyd Bryniau Clwyd gydag esgynfa o 4,600 troedfeddi. Bydd yn rhaid i chi gwblhau'r daith mewn 12 awr neu lai. Byddwn yn darparu bwyd a diod ar hyd y daith ac fe gewch chi bryd poeth ar y diwedd.

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.excaliburmarathon.com

Dydd Iau, Mawrth yr 22ain a Dydd Gwener Mawrth y 23ain

Coedlannu a Phlygu Gwrych

10yb – 3yp

Digwyddiad deuddydd i deneuo'r coed cyll ar hyd yr hen reilffordd yng Ngallt Melyd ac yna eu paratoi yn barod ar gyfer eu plygu i wneud gwrych o amgylch y lle picnic. Cyfarfod ym maes parcio Sied Nwyddau Gallt Melyd, SJ062809.

Mawrth yr 31ain – Ebrill y 15fed
Gwyliau'r Pasg

Dydd Sadwrn, Mawrth yr 31ain –
Dydd Sul, Ebrill y 15fed

Cwis 'Egg-heads' yn Loggerheads

10yb – 4yp

Ewch i Ganolfan Bryniau Clwyd i dderbyn copi o'r daflen gwestiynau 'Egg-heads'. Dychwelwch y daflen wedi ei chwblhau i Gaffi Florence lle cewch chi anrheg Pasg arbennig. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Mawrth, Ebrill y 3ydd

Blychau Adar ac Ystlumod

11yb – 3yp

Dewch draw i adeiladu blychau ar gyfer y bywyd gwyllt sydd yn eich gardd. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Sadwrn, Ebrill y 7fed

Taith Gyfeiriannu

10yb – 3yp

A fyddwch chi'n cwblhau'r cwrs cyfeiriannu newydd yng ngerddi hanesyddol hyfryd Plas Newydd Llangollen? Galwch heibio i ymuno yn yr hwyl gyda theuluoedd eraill. Os na fyddwch chi'n gallu ymuno â ni ar y dyddiad yma, beth am brynu map cyrsiau cyfeiriannu yn y siop ym Mhlas Newydd. Cofiwch alw heibio am fwy o fanylion. Plas Newydd, Llangollen.



Dydd Sadwrn, Ebrill y 7fed

Taith gerdded y Pasg

10yb – 3yp

Dilynwch y llwybr o amgylch y goedwig ac ateb y cwestiynau i ennill eich anrheg Pasg. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau, SJ172612.



Dydd Mercher, Ebrill y 11eg

Llosgfynyddoedd Lloerig

10.30yb – 12yp

Dewch i greu llosgfynydd ffrwydrol gyda'n Swyddog Geoamrywiaeth yn yr Ystafell Ddosbarth yn y Goedwig ym Mharc Gwledig Loggerheads.



Dydd Iau, Ebrill y 12fed

Helia Wyau Pasg

10.30yb – 12.30yp

Dewch i Dwyni Tywod Gronant i chwilio am byrsiau'r môr-forynion (casys wyau siarcod a chathod môr). Hefyd bydd cyfle i chi gynorthwyo gyda'r cynllun blyneddol i fonitro'r creaduriaid sy'n mynd yn fwy prin. Bydd dipyn bach o waith cerdded o'r maes parcio at y traeth. Dewch ag esgidiau glaw a rhywbeth i gario'r casys wyau. Mae croeso i grwpiau ddod i'r digwyddiad. Maes Parcio isaf Gronant (gyferbyn â Chaffi Pantri Crofters), SJ090836.



Dydd Mercher, Ebrill y 18fed

Gofalu am Gynefinoedd

Madfallod Tywod

10yb – 1yp

Ymunwch â ni i wella cynefinoedd y madfallod tywod sydd wedi eu rhyddhau ar Draeth Barkby. Byddwch yn clirio lleiniau o dywod yn y twyni. Maes Parcio isaf Traeth Barkby, Prestatyn, SJ068839.





Dydd Mercher, Ebrill y 18fed

O gwmpas y Sir 3 Glan y Gors i Faerdy

11yb – 5yp

Dewch i fwynhau blodau'r gwanwyn ar hyd y daith 7 milltir ar hyd llwybr Brenig o Glan y Gors i Faerdy (taith ar i lawr yr holl ffordd mwy neu lai!). Cyfarfod yn Nhafarn yr Afr, Maerdy SJ016446. Bydd trafndiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Mawrth, Mai'r 2il

Ffensio yng Ngronant

10yb – 4yp

Ymunwch â ni yn y digwyddiad blynyddol yma i godi ffensys yng Ngronant. Bydd hyn yn cynorthwyo i warchod gwenoliaid y môr ifanc, adar bychain sy'n ymfudo, rhag llwynogod a chŵn anwes. Parc Gwyliau Presthaven Sands, Gronant, SJ089841.



Dydd Gwener, Mai'r 4ydd

Taith Fore o Wanwyn

7yb – 10yp

Dechreuwch y diwrnod gyda chylchdro 3 milltir i fwynhau synau'r gwanwyn ym Mryniau Clwyd. Maes parcio Coed Llangwyfan, SJ139668.



Dydd Llun, Mai'r 7fed

Ras Hwyaidd Gŵyl Fai

10yb – 3yp

Bydd Grŵp Sgowtiaid Trindod Famau, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, yn rhyddhau 2000 o hwyaidd ar afon Alun ym Mharc Gwledig Loggerheads. Dyma ddigwyddiad gwerth chweil ar gyfer y teulu i godi arian ar gyfer sgowtiaid yr ardal.

Dydd Llun, Mai'r 7fed

Taith Gerdded a Pheintio

Lluniau ym Mryniau Clwyd

11yb – 3yp

Ymunwch â'r artist Bill Kneale ar daith Gŵyl Fai 3 milltir i fryngaer Penycloddiau. Bydd yn gyfle i chi ddysgu sut i dynnu llun y golygfeydd godidog o'ch cwmpas! Byddwn yn darparu'r holl ddeunyddiau fydd angen arnoch ynghyd â chymorth tiwtor profiadol. Cyfarfod ym maes parcio Llangwyfan, SJ139669.



Dydd Iau, Mai'r 10fed

O gwmpas y Sir 4 Maerdy i Gorwen

10yb – 4yp

Ymunwch â ni ar y daith 9 milltir hon ar hyd Llwybr Brenig drwy'r cefn gwlad i Gynwyd ac ar hyd yr hen reilffordd i Gorwen. Cyfarfod yn y prif faes parcio yng Nghorwen. Bydd trafndiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Sul, Mai'r 20fed

Grug a Chaerau Penycloddiau

10.30yb – 2.30yp

Ymunwch â Thîm Prosiect y Grug a'r Caerau ar gylchdaith 5 milltir ar hyd y rhostir grug i fryngaer hanesyddol Penycloddiau. Cyfarfod ym maes parcio Llangwyfan, oddi ar Ffordd Nannerch i Langwyfan, SJ139668.



Dydd Mawrth, Mai'r 22aim – Dydd Iau, Mai'r 24ain

Codi Waliau Cerrig Sych

10yp – 4yb

Dewch i gael blas ar - neu wella'ch sgiliau - codi waliau sych! Byddwn yn ailadeiladu adrannau o'r wal terfyn wrth ymyl Bryngaer Caer Drewyn. Dyma gyfle i chi ddysgu mwy am fywyd eich cyndadau yma yn y fryngaer! Maes parcio Canolfan Hamdden Corwen, SJ079437.

Dydd Gwener, Mai'r 25ain

Hanes dwy afon

9.30yb – 1yp

Taith gerdded ar hyd dwy afon yn Nyffryn Clwyd. Byddwn yn cerdded ar hyd rhan o'r llwybr cymunedol newydd, Llwybr Clywedog Clwyd ar y gylchdaith 7½ milltir o Ruthun i Rewl. Cyfarfod ym maes parcio Ffordd Parc, Rhuthun, SJ120582.



Gŵyl Gerdded Prestatyn

Mai'r 18fed – 20fed

www.prestatynwalkingfestival.co.uk

I gadw lle ffoniwch: 01745 857185

Dydd Iau, Mai'r 31ain
O Gwmpas y Sir 5
Corwen i Glyndyfrdwy
9.20yb – 4yp

Byddwn yn mynd i fyny am Ben y Pigyn a cherdded ar hyd Llwybr Gogledd Berwyn i Lyndyfrdwy. Ymunwch â ni ar y daith 10 milltir yma lle cewch fwynhau daearyddiaeth amrywiol yr ardal. Cyfarfod yn y gilfan ar ochr orllewinol y ffordd gyferbyn â chanolfan y Butterfly Man yng Nglyndyfrdwy, SJ157425.



Mehefin yr 2il – 10fed
Hanner Tymor

Mehefin y 1af – 4ydd
Gŵyl Goed, Llanelwy
www.woodfestwales.co.uk



Dydd Llun, Mehefin y 4ydd
Saffari Lleudawn yng Nghorwen
8.00yh – 10.30yh*

Ymunwch â ni ar daith gyda'r nos o amgylch cefn gwlad Corwen. Byddwn yn chwilio am ystlumod, gwyfynod a throellwyr. Gobeithiwn y cawn leudawn i'n tywys ar y daith ond dewch â thortshis a chwistrell ymlid pryfed rhag ofn. (*efallai bydd yr amser yn amrywio). Ni fyddwn yn mynd ar y daith os ydi'r tywydd yn arw felly ffoniwch ar y diwrnod i wirio hyn.



Dydd Mercher, Mehefin y 6ed
Hwyl i'r Teulu Cyfan yn Loggerheads
10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Mercher, Mehefin y 6ed
Helfa Pryfed i ddechreuwyd
1.30yb – 3.30yp

Taith 2 filltir o amgylch Parc Gwledig Loggerheads i'r rheiny sydd â diddordeb mewn anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Dewch i ddysgu sut i ddod o hyd i bryfed mân drwy ddefnyddio amryw o ddulliau gwahanol. Canolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Iau, Mehefin y 7fed
Taith Gerdded Gyda'r Nos yn Nercwys

8.30yb – 11yp
Taith Gerdded 2 filltir a ½ i weld (gobeithio) troellwyr, ystlumod, tylluanod a gwyfynod. Dewch â thortsh gyda chi. Rydym ni'n argymhell eich bod yn dod â chwistrell ymlid pryfed gyda chi hefyd! Maes parcio gogledd Coed Nercwys (ger Yr Wyddgrug), SJ218593.



Mehefin 9fed – 17eg
Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
www.biodiversitywales.org.uk

Dydd Sadwrn, Mehefin y 9fed
Gemau Gwylt ym Mhlas Newydd
11.30yb – 3.30yp

Fel rhan o wythnos Bioamrywiaeth byddwn yn trefnu gweithgareddau ar gyfer y teulu oll. Ymysg y gweithgareddau fydd fforio'r afon ac adeiladau Blychau Adar. Plas Newydd, Llangollen.



Dydd Mawrth, Mehefin y 12fed
Tir Calchfaen
10am – 3pm

Taith gerdded hamddenol 6 milltir yn y cefn gwlad gyda golygfeydd anhygoel a'r glaswelltiroedd calchfaen yn llawn blodau. Cilfach barcio Plymog - oddi ar yr A494 y ffordd o'r Wyddgrug i Ruthun, 1.2 milltir i'r gorllewin o Lanferres, SJ187599.



Dydd Mawrth, Mehefin y 12fed
Taith Bioamrywiaeth ar y Trên
6.30yb – 10yp

Dewch ar drên bach Llangollen a chael gwers ar fywyd gwylt rhyfeddol Dyffryn Dyfrdwy wrth i chi deithio heibio golygfeydd syfrdanol yr

ardal. Bydd yn rhaid i chi gadw lle a thalu am docyn. Cyfarfod yng Ngorsaf Drenau Llangollen.



Dydd Iau, Mehefin y 14eg
Bywyd gwylt gyda'r nos yn Nercwys

8.30pm – 11pm
Taith Gerdded 2 filltir a ½ gyda'r nos i weld (gobeithio) troellwyr, ystlumod, tylluanod a gwyfynod. Dewch â thortsh gyda chi. Rydym ni'n argymhell i chi ddod â chwistrell ymlid pryfed gyda chi hefyd! Maes parcio gogledd Coed Nercwys (ger Yr Wyddgrug), SJ218593.



Dydd Sul, Mehefin yr 17eg
Grug a Chaerau Moel Arthur
10.30yb – 2.30yp

Ymunwch â Thîm Prosiect y Grug a'r Caerau ar gylchdaith 4 milltir ar hyd rhostir grug i fryngaer hanesyddol Moel Arthur. Cyfarfod ym maes parcio Moel Arthur oddi ar yr A451 i Ffordd Llandyrnog, SJ147657.



Dydd Sul, Mehefin y 17eg
Cynefinoedd Pryfed a llyffantod a
Blychau Adar

11yb – 3yp
Dewch i greu
cynefinoedd a
blychau ar gyfer
y bywyd gwyllt yn eich
gardd. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Mercher, Mehefin yr 20fed
0 amgylch y Sir 6
Carrog i Berwyn
11yb – 5yp

Dewch ar drên bach Llangollen i
weld mynyddoedd Llantysilio a'r
Safle Treftadaeth Byd ger
Rhaeadr Llantysilio. Byddwn yn
cyfarfod ym maes parcio maes
pentref Llantysilio, gan ddal y
trên o Ferwyn i Garrog am
11.10. Wedyn byddwn yn
cerdded 9 milltir ar hyd brynau
hyfryd Llantysilio. Cofiwch gadw
lle yn fuan gan nad oes llawer o
lefydd ar y daith. Cyfarfod ym
maes parcio Maes pentref
Llantysilio, SJ198433.



Her Cerdded Gyda'r Nos



Dydd Sadwrn y 23ain tan dydd
Sul y 24ain o Fehefin
Her Cerdded Gyda'r Nos
8.15yb – 6.30yb

Taith gerdded dros nos sy'n 13
milltir o hyd heibio tri philer
triongl. Byddwch yn cychwyn
yng Nghoed Nercwys, yn
ymweld â Moel Gw ac yna'n
gorffen y daith ym Moel Famau.
Dewch i weld yr haul yn machlud
uwchben Bryniau Clwyd ac yna
gwyllo'r haul yn gwawrio ym
Moel Famau. Felly cewch weld
Bryniau Clwyd yng ngolau'r dydd
ac yng ngolau'r lleuad. Dewch â
thortsh gyda chi. Bydd paned /
cawl i'ch cynhesu yn ystod y
daith ond cofiwch ddod â dillad
cynnes a diod gynnes gyda chi.
Parciwch ym Mharc Gwledig
Loggerheads, bydd bws mini yn
mynd â chi i fan cychwyn y
daith ac i fynd â chi'n ôl i'r maes
parcio ar ddiwedd y daith.



Dydd Mercher, Mehefin y 27ain

Natur Llechi

7yh – 9yh

Treuliwch noson yn troedio dyffryn
Nant y Pandy lle bu unwaith ffatri
lechi llewyrchus. Erbyn heddiw mae'r
dyffryn yn gartref i doreth o fywyd
gwyllt. Byddwn yn cychwyn y daith 2
filltir yn y maes parcio y tu ôl i'r
neuadd yng Nglyndyfrdwy, gyferbyn
â Hodge Podge, SJ14884259.



Dydd Sul, Gorffennaf yr 8fed

Bryngaer Caer Drewyn

10yb – 12yp

Cylchdaith 2 filltir i edrych ar fywyd
gwyllt a bryngaer hanesyddol Caer
Drewyn. Cyfarfod yng Nghanolfan
Hamdden Corwen, LL21 9RW,
SJ082442.



Dydd Mercher, Gorffennaf yr 11eg

0 amgylch y Sir 7

Maes pentref Llantysilio i
Graig-y-Forwyn

10yb – 4yp

Dewch ar daith 8 milltir i weld
Abaty Glyn y Groes a Chastell
Dinas Bran cyn dilyn y darren
Eglwyseg i Graig-y-Forwyn.
Cyfarfod yn y maes parcio ger
Craig-y-Forwyn SJ232484. Bydd
trafnidiaeth wedi ei drefnu i fynd â
chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Sadwrn y 14eg tan ddydd
Sul y 29ain

Gŵyl Archeoleg
Prydain

Dydd Mawrth, Gorffennaf yr 17eg

Peirianeg Fyd-enwog

10yb – 4yp

Dewch ar daith 7 milltir trwy Ddyffryn
Dyfrdwy. Bydd cyfle i chi ymweld â
Chastell Dinas Bran, Camlas
Llangollen ac Abaty Glyn y Groes.
Mae'r ardal yn awr yn Safle
Treftadaeth Byd oherwydd yr
atyniadau hyn. Cyfarfod ym maes
parcio maes pentref Llantysilio,
SJ198432.



Dydd Mercher, Gorffennaf y 18fed

Merched Llangollen

11yb – 1yp

Taith gerdded 3 milltir yn dilyn trywydd Merched Llangollen. Bydd Plas Newydd ar agor ar ôl i chi offren y daith, bydd pris mynediad gostyngol i'r cerddwyr. Plas Newydd, Llangollen LL20 8AW.



Gorffennaf yr 21ain – Medi'r 2il
Gwyliau'r Haf

Dydd Sadwrn Gorffennaf yr 21ain a dydd Sul Gorffennaf yr 22ain

Hud a Lledrith Canoloesol

11yb – 4yb

Dewch i ymuno ag actorion o'r grŵp 'Age of Princes' a fydd yn ail-greu golygfeydd o'r oesoedd canol fel rhan o Wyl Archeoleg Prydain. Bydd yr actorion yn gosod eu pebyll canoloesol ym Mharc Gwledig Loggerheads. Dewch draw i ddysgu am eu ffordd o fyw a'u sgiliau brwydro! Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Sadwrn, Gorffennaf yr 21ain
Diwrnod Agored Coed Moel Famau
10yb – 4yp

Gweithgareddau, fforio pyllau ac arddangosfeydd. Cyfle i gyfarfod â rhai o staff y Comisiwn Coedwigaeth a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Maes parcio Coed Moel Famau, SJ172612.



Dydd Mawrth Gorffennaf y 24ain,
dydd Mercher y 25ain a dydd
Gwener y 27ain

Creu Siarcol

10yb – 4yp

Dewch i gael blas ar greu siarcol yn y dull traddodiadol, siarcol am ddim i bawb fydd yn cymryd rhan! Dydd Mawrth - llenwi'r olyn, dydd Mercher - tanio'r olyn a llosgi'r siarcol, dydd Gwener byddwn yn rhoi'r cynnyrch mewn bagiau. Corwen – Rheilffordd Cynwyd. Cyfarfod yng nghilfach barcio Stamp, SJ060424.

Dydd Mercher, Gorffennaf y 25ain
Hwyl i'r Teulu Cyfan yn
Loggerheads

10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Mercher Awst y 1af – dydd Sul Awst y 12fed

Taith Theatr Hwyl i'r Teulu

Bydd Cwmni 'Shed Theatr' yn cyflwyno cynhyrchiad awyr agored newydd sbon wedi ei ysbrydoli gan ein cefn gwlad prysur. Mae'n gynhyrchiad llawn cymeriadau bywiog (drwg weithiau) a chaneuon hwyliog a hawdd eu cofio. Bydd taith y cwmni'n cychwyn ar ddydd Mercher Awst y 1af a byddan nhw'n dangos y cynhyrchiad yng Nghefn Gwlad Gogledd Ddwyrain Cymru o Foel Famau a Loggerheads i Ruddlan yn y Gogledd a Llangollen yn y De. Byddwn yn cyhoeddi manylion y daith yn y gwanwyn, ewch i www.cefngwladsirddinbych.org.uk neu www.shedtheatr.com neu beth am glicio 'hoffi' ar ein tudalen Facebook 'Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych' i weld y newyddion diweddaraf.

Dydd Iau, Gorffennaf y 26ain

Pedair Tref Ganoloesol?

10yb – 4yp

Taith gerdded 7 milltir o Lanelwy i Ruddlan (ac yn ôl) i ddarganfod mwy am hanes ac archeoleg ryfeddol yr ardal. Dysgwch am dair tref ganoloesol Rhuddlan! Cyfarfod yn y maes parcio drws nesaf i Gadeirlan Llanelwy, SJ039743.



Dydd Iau, Awst yr 2il

Ystlumod yn Ninbych

8yb – 10.30yp

Ymunwch â ni ar daith 3 milltir lle rydym yn gobeithio gweld amryw o rywogaethau Ystlumod. Dewch â chanfodydd ystlumod gyda chi. Peidiwch â phoeni os nad oes gennych chi un, byddwn yn rhannu'r offer gyda'n gilydd. Cyfarfod ym Melin Brwcws, Dinbych, SJ071657.



Dydd Mawrth, Awst y 7fed

Cylchoedd Cerrig a'r Uchelfannau

10yb – 5yp

Taith gerdded heriol 10 milltir at Grib Berwyn lle cewch olygfa o gylch cerrig arbennig Moel Tŷ Uchaf. Moel Tŷ Uchaf ydi'r domen gladdu uchaf yn ardal Dinbych o'r Oes Efydd. Cyfarfod yn y maes parcio Llandrillo, SJ035371.



Dydd Mawrth, Awst y 7fed

Ar eich beic ym Mrenig

11yb – 4yp

Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu oll. Dewch â'ch beic gyda chi i feicio ar hyd ein llwybr beicio a magu hyder gyda chymorth ein beicwyr profiadol. Ar ôl hynny bydd cyfle i chi feicio ar eich liwt eich hun o amgylch y llyn. Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig.



Dydd Mercher, Awst yr 8fed
Hwyl i'r Teulu Cyfan yn
Loggerheads

10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Mercher, Awst yr 8fed
Ar eich beic yng Nghoed
Moel Famau

11yb – 4yp

Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu oll. Dewch â'ch beic gyda chi i feicio ar hyd ein llwybr beicio a magu hyder gyda chymorth ein beicwyr profiadol. Ar ôl hynny bydd cyfle i chi feicio ar eich liwt eich hun o amgylch y goedwig. Maes parcio Coed Moel Famau.



Dydd Iau, Awst y 9fed
Hwyl ar y Traeth

10yb – 12yp

Gemau a gweithgareddau ar draeth y Rhyl a chyfle i chi ddysgu am fywyd gwylt y traeth. Croeso i unigolion a grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â'r orsaf achubwyr bywydau, SJ009819.



Dydd Iau, Awst y 9fed
Ar eich beic ym Mhafiliwn Llangollen

11yb – 4yp

Digwyddiad llawn hwyl i'r teulu oll. Dewch â'ch beic gyda chi i feicio ar hyd ein llwybr beicio a magu hyder gyda chymorth ein beicwyr profiadol. Ar ôl hynny bydd cyfle i chi feicio ar hyd y gamlas. Pafiliwn Rhyngwladol Llangollen.



Dydd Gwener,
Awst y 10fed
Ymweld â'r Ystlumod

8yh – 10.30yh


Dewch i weld ystlumod Nantclwyd y Dre. Bydd sgwrs fer i ddechrau ac yna cyfle i chi wyllo'r ystlumod yn dod allan o'u cartrefi yn barod ar gyfer eu hanturiaethau gyda'r nos. Nantclwyd y Dre, Rhuthun LL15 1DP.



Dydd Llun, Awst y 13eg
Sêr Gwib gyda'r Nos!

9yh – 11yh

Taith tywys 2 filltir i fryngaer Caer Drewyn lle cewch weld (gobeithio) y gawod flynyddol o sêr gwib 'Perseids'. Bydd cawl a rhôl ar ôl cyrraedd! Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Corwen. SJ082442. Dewch â thortsh gyda chi.



Dydd Mawrth, Awst y 14eg

O amgylch y Sir o
Craig-y-Forwyn i 'Clwyd Gate'

10yb – 4yp

Taith 10 milltir heibio'r grug hyfryd ar hyd Llwybr y Clawdd Offa. Byddwn yn mynd ar draws Cyn y Brain, trwy Goedwig Llandegla ac ar hyd pen deheuol Bryniau Clwyd. Cyfarfod yn 'Clwyd Gate' SJ164582. Bydd trafndiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Mawrth, Awst y 14eg

Hel Llus

10.30yb – 1.30yp

Dewch am dro o gwmpas Moel Famau i ddod o hyd i'r manau gorau ar gyfer hel llus ac i edrych ar olygfeydd godidog Bryniau Clwyd. Dewch â bocs i gadw'r llus gyda chi. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Pen Barras, Moel Famau, SJ162606.



Dydd Mercher, Awst y 15fed
Hwyl i'r Teulu Cyfan yn
Loggerheads

10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Iau, Awst yr 16eg

Sioe Amaethyddol Dinbych a Fflint

☎ 01352 712131



Dydd Mawrth, Awst yr 21ain

Barbeciw ac Ystlumod

7.30yh – 10.30yh

Ymunwch â ni am farbeciw a thaith milltir a hanner yn y goedwig. Wrth i chi gerdded cewch wrando ar sgwrs a dysgu mwy am ystlumod. Dewch â thortsh gyda chi. Maes parcio gogleddol Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug), SJ218593.



Dydd Mercher, Awst yr 22ain

Hwyl i'r Teulu Cyfan yn

Loggerheads

10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Iau, Awst y 23ain

Ymgom Ystlumod

8yh – 10yh

Dewch i ddysgu popeth am ystlumod mewn cyflwyniad byr a cherdded am ryw filltir yn hamddenol. Byddwn yn defnyddio cyfarpar arbennig i ganfod yr ystlumod. Cewch wybod mwy am hyn yn ystod y cyflwyniad! Dewch â thortsh gyda chi. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Sul, Awst y 26ain

Grug a Chaerau Moel y Gaer, Llanbedr

10.30yb – 2.30yp

Ymunwch â Thim Prosiect y Grug a'r Caerau ar gylchdaith 4 milltir a ½ ar hyd y rhostir grug i fryngaer hanesyddol Moel y Gaer Llanbedr. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Pen Barras, Moel Famau, SJ162605.



Dydd Mawrth, Awst yr 28ain

Eglwyseg ar ei orau

10.30yb – 4.30yp

Ymunwch â ni ar gylchdaith 10 milltir ar draws yr Eglwyseg ddramatig. Cewch fwynhau golygfeydd hyfryd o'r mynyddoedd wedi'u gorchuddio â grub. Byddwn yn dychwelyd ar hyd Llwybr Cenedlaethol y Clawdd Offa dros y sgri garw. Cofiwch wisgo esgidiau cryf a chadarn. Cyfarfod yn y gilfach barcio islaw Creigiau Trefor, SJ234 431.



Dydd Mawrth, Awst yr 28ain

Hwyl ar y Traeth

2yp – 4yp

Gemau a gweithgareddau ar draeth y Rhyl lle bydd cyfle i chi ddysgu am fywyd gwylt y traeth. Croeso i unigolion a grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â'r orsaf achubwyr bywydau, SJ009819.



Dydd Mercher, Awst y 29ain

Hwyl i'r Teulu Cyfan yn

Loggerheads

10.30yb – 12yp

Gweithgareddau i'r teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads. Cyfarfod y tu allan i Ganolfan Bryniau Clwyd.



Dydd Iau, Awst y 30ain

O amgylch y Sir ?

Clwyd Gate i

Llangwyfan

10yb – 4yp

Dewch ar daith 7 milltir ar hyd Llwybr y Clawdd Offa ac ar draws rhostir grug Bryniau Clwyd. Byddwn yn ymweld â 2 Bryngaer o'r Oes Haearn a'r Tŵr y Jiwbilî. Cyfarfod ym Maes Parcio Llangwyfan, ym mhen uchaf y ffordd wledig rhwng Llangwyfan a Nannerch. SJ139669. Bydd trafndiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Iau, Awst y 30ain

Ymgom Ystlumod

8yh – 10yh

Dewch i ddysgu popeth am ystlumod mewn cyflwyniad byr gyda thaith hamddenol (milltir) i'w ddilyn. Byddwn yn defnyddio cyfarpar arbennig i ganfod yr ystlumod. Cewch wybod mwy am hyn yn y cyflwyniad! Dewch â thortsh gyda chi. Parc Gwledig Loggerheads.



Dydd Gwener,

Awst yr 31ain

Ystlumod!!

7yh – 9yh

Ymunwch â ni i ddarganfod popeth am ystlumod a chreu model o ystlum. Yna byddwn yn cerdded o amgylch gerddi hyfryd Plas Newydd i weld faint o ystlumod y gallwn ni eu gweld! Plas Newydd, Llangollen LL20 8AW.





Dydd Llun, Medi'r 3ydd
Cerdded a Pheintio
 Llundiau ym Mryniau Clwyd
 11yb – 3yp

Ymunwch â'r Artist Bill Kneale ar daith 4 milltir i Dŵr Jiwbiŵl a bryngaer Foel y Gaer Llanbedr. Bydd cyfle i chi ddysgu sut i dynnu llun y dirwedd ryfeddol sydd o'ch cwmpas! Byddwn yn darparu'r holl ddeunyddiau fydd angen arnoch a chewch gyngor arbenigol a thaith gerdded braf. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Pen Barras / Bwlch Haearn, **SJ161605**.



Dydd Sul, Medi'r 9fed
Grug a Chaerau Moel Fenlli
 10.30yb – 2.30yp

Ymunwch â Thîm Prosiect y Grug a'r Caerau ar gylchdaith 4 milltir ar hyd y rhostir grug i Fryngaer Hanesyddol Moel Fenlli. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Pen Barras, Moel Famau, **SJ162605**.



Dydd Sadwrn, Medi'r 15fed
Open 2 Offas

Ydych chi'n barod am her gerdded faith? Byddwn yn cychwyn her 'Open 2 Offas', sydd wedi ei drefnu gan y 'Merseystriders' - grŵp Cymdeithas Gerddwyr Pellter Hir yr ardal, yng Nghilcain (SJ176652). Mae'n her 14, 21 neu 31 milltir ar hyd Bryniau Clwyd. Byddwn yn darparu bwyd a diod ar hyd y daith ac fe gewch chi bryd o fwyd ar ôl i chi gyrraedd pen y daith. Am fwy o wybodaeth ewch i www.ldwa.org.uk/merseystride a chliciwch ar y dolenni.

Dydd Sadwrn, Medi'r 15fed a dydd Sul Medi'r 16eg

MAE'R MARATHON 'CHAIN REACTION' YN EI ÔL!

Dyma'r 13eg Marathon 'Chain Reaction MTB' yn Rhuthun. Bydd cyfle i'r cystadleuwyr feicio ar hyd Bryniau Clwyd, ar dir nad oes modd beicio arno fel arfer. Diolch i berchnogion y tir am y caniatâd. Cewch ddewis naill ai marathon llawn, marathon canolig neu hanner marathon. Ewch i www.mtb-marathon.co.uk am fwy o fanylion.

Dydd Sul, Medi'r 16eg
Llwybr Archeolegol Brenig
 2yp – 4yp

Dewch ar daith 2 filltir i ddarganfod mwy am yr Oes Efydd ac archaeoleg diweddarach yr ardal hon. Bydd cloddiwr yn sgwrsio am y gwaith archeolegol yn y 1970au. Cyfarfod yn y maes parcio sydd i'r gogledd ddwyrain o Lyn Brenig, **SH983574**.



Dydd Llun, Medi'r 17eg
O amgylch y Sir 10
Llangwyfan i Rhualt
 10yb – 4yp

Byddwn yn cerdded 8 milltir ar hyd Llwybr Cenedlaethol y Clawdd Offa. Byddwn yn cerdded heibio'r Bryngaerau o'r Oes Haearn ym Mhenycloddiau a Moel y Gaer ac ar hyd rhan ogleddol Bryniau Clwyd tuag at y môr. Cyfarfod yng Nghoed Llangwyfan oddi ar ffordd Nannerch - Llangwyfan. **SJ139668**. Bydd trafndiaeth wedi ei drefnu i fynd â chi i fan cychwyn y daith.



Dydd Sadwrn, Medi'r 22ain
Taith Hiraethog
 9.30yb – 4yp
 Dewch ar gylchdaith heriol 12 milltir a ½ trwy Goedwig Clocaenog. Byddwn yn cychwyn o Gyffylliog ac yn cerdded yn araf i fyny Craig Bron Bannog ac yna i fyny i Bincyn Llys gan edrych ar y golygfeydd hyfryd o Fryniau Clwyd. Cyfarfod yng Nghyffylliog, cewch barcio ar ochr y stryd ger Ysgol Cyffylliog, **SJ060577**.



Dydd Sadwrn Medi'r 22ain a dydd Sul Medi'r 23ain
Ysgarmes Ganoloesol
 11yb – 4yp

Bydd grŵp Cwmwd lâl yn ail-greu digwyddiadau canoloesol yn Ninas Bran. Bydd teithiau tywys o amgylch y Castell am hanner dydd, 2yh a 4yh. Parciwch eich car yn Llangollen a dilynwch yr arwyddion am y Castell.






Dydd Sadwrn Medi'r
22ain a dydd Sul
Medi'r 23ain

Halo British Downhill Series

Bydd cannoedd o feicwyr yn
sgrialu i lawr y mynydd nepell o
Llangollen. Bydd yn ddiwrnod gwych
i'r gwylwyr. Am fwy o
wybodaeth ewch i
www.halobritishdownhillseries.com.
Bydd 'Onegiantleap' yn cynnal
dyddiau 'Uplift' yn rheolaidd – ewch
i'r wefan am fwy o fanylion -
www.onegiantleap.llangollen.co.uk



22ain a'r 23ain

Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug

Dydd Sul, Medi'r 23ain
**Grug a Chaerau Moel y Gaer
Llantysilio**
10.30yb – 4yp
Ymunwch â Thîm Prosiect y Grug a'r
Caerau ar gylchdaith 6 milltir ar hyd y
rhostir grug ac i fryngaer hanesyddol
Moel y Gaer ar fynyddoedd
Llantysilio. Cyfarfod yng Nghanolfan
Gymunedol 'Conquering Hero',
Rhewl, Llangollen, LL20 7YT



Dydd Iau, Medi'r 27ain
**Cylchdaith o Goed Nercwys i
Foel Findeg**

10yb – 3yp
Dewch ar daith hamddenol o
amgylch dau atyniad diddorol yn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Brynau Clwyd. Byddwn yn edrych ar
brosiectau diddorol ein staff,
gwirfoddolwyr a'u cyfeillion â 4 coes.
Cyfarfod ym maes parcio gogleddol
Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug),
SJ218593.



Dydd Iau, Hydref y 4ydd
**O amgylch y Sir 11
Rhualt i Brestatyn**

9.30yb - 4yp
Taith gerdded 8 milltir ar hyd
Llwybr Cenedlaethol y Clawdd
Offa o Rualt a thros Fryniau
Prestatyn tuag at y môr.
Cyfarfod yng Nghanolfan Nova
ym Mhrestatyn lle bydd bws mini
yn mynd â chi i fan cychwyn y
daith.



Dydd Iau, Hydref y 18fed
Taith Hanes Llangollen
10yb – 2.30yp

Cylchdaith 6 milltir lle cewch ddysgu
am hanes cyfoethog tirwedd
Llangollen. Cyfarfod yng Nghanolfan
Groeso Llangollen.



27ain – Tachwedd y 4ydd
Hanner Tymor Hydref

Dydd Iau, Hydref y 25ain
Taith yr Hydref
10yb – 2yp

Cylchdaith 6 milltir lle
gewch fwynhau lliwiau
anhygoel yr hydref
a golygfeydd godidog. Parc
Gwledig Loggerheads.



Dydd Mawrth, Hydref y 30ain
Coedlannu yn Loggerheads
10yb – 3yp

Dewch i barhau â'r gwaith blyneddol
ar y coedwigoedd a dysgu'r
dechneg draddodiadol o goedlannu.
Cyfarfod ym Mharc Gwledig
Loggerheads.



Dydd Mercher, Tachwedd y 14eg
**O amgylch y Sir 12
Prestatyn i y Rhyl**

9.30yb – 3yp
Taith 8 milltir ar hyd y cefn gwlad
rhwng trefi Prestatyn a'r Rhyl.
Byddwn yn cychwyn ar ddiwedd
(neu gychwyn!) Llwybr y Clawdd
Offa. Byddwn yn dilyn Llwybr
Gogledd Cymru hyd at y 'Rhyl
Lynx' a cherdded ar hyd y llwybr
yno yn ôl i Bwll Brickfields. Bydd
trafnidiaeth wedi ei drefnu i fynd â
chi i fan cychwyn y daith.
Cyfarfod ger Pwll Brickfields, y
Rhyl, SJ013804.



Rhagfyr yr 17eg – Ionawr yr 2il
Gwyliau'r Nadolig

Nadolig yn Loggerheads

Hwyl ar gyfer y teulu cyfan ym Mharc
Gwledig Loggerheads dros yr
Ŵyl eleni.
☎ Caffi Florence ar 01352 810397
www.caffiflorence.co.uk



Twristiaeth Werdd

Diben y gyfres o deithiau cerdded yma ydi denu pobl allan i'r cefn gwlad i fwynhau'r golygfeydd godidog ac i edrych ar y byd natur. Rydym ni'n gobeithio y bydd pobl yn deall mwy am ddaearyddiaeth, bywyd gwyllt, a hanes a diwylliant yr ardal gan rannu'r wybodaeth gyda'u teulu a'u ffrindiau. Fel Gwasanaeth Cefn Gwlad rydym ni'n gweithio'n agos gyda chymunedau a busnesau er mwyn annog pobl i ymweld â'r ardal ac ymgartrefu yma gan ymddwyn yn briodol er mwyn cefnogi'r ardal h.y. defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, bwyta cynnyrch lleol a dilyn y côd cefn gwlad.

Oherwydd ein hymrwymiad at Dwristiaeth Werdd/Cynaliadwy mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi derbyn arian i gyhoeddi'r llyfryn hwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Derbyniwyd yr arian gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig sydd wedi ei weinyddu gan Asiantaeth Datblygu Gwledig Cadwyn Clwyd. **Am fwy o wybodaeth am y prosiect ewch i www.cadwynclwyd.co.uk**

"Derbyniodd Bryniau Clwyd y Siarter Europarc am Dwristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd Cadwraeth yn 2009. Arweiniodd hyn at roi egwyddorion Europarc ar waith er mwyn annog twristiaeth gynaliadwy yn Sir Ddinbych.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddiwylliant, hanes ac ar amgylchedd naturiol. Ein gobaith ydi gwella twristiaeth drwy annog pobl i ymweld â Sir Ddinbych drwy gydol y flwyddyn."

Dewch i'n digwyddiadau ar y bws i leihau'ch ôl-troed carbon!

Mae'r 'Clwydian Ranger' yn wasanaeth bws rhwng mis Gorffennaf a diwedd mis Medi ar ddydd Sul a Gŵyl y Banc mis Awst. Bydd yn mynd heibio manau cychwyn ein teithiau cerdded, pentrefi Bryniau Clwyd, Caer, trefi Gogledd Cymru, y rheilffyrdd, Parc Gwledig Moel Famau (lle cewch weld y tŵr Jiwbiŵl adnabyddus) a Pharc Gwledig Loggerheads.

Bydd y bws gwennol o Foel Famau i Barc Gwledig Loggerheads yn rhedeg pob dydd yn ystod gwyliau'r haf (Gorffennaf yr 21ain tan Fedi'r 2il). Rydym ni'n gobeithio y bydd hyn yn lleihau nifer y bobl sy'n parcio'n anghyfreithlon ar yr A494. Cofiwch fanteisio ar y gwasanaeth RHAD AC AM DDIM yma, yn enwedig os ydych chi'n bwriadu mynd i Barc Gwledig Loggerheads.

Gadel Moel Famau

Gadael Loggerheads

09.00		09.30
10.00		10.30
11.00	↑	11.30
12.00	Bydd y bws yn stopio yng Nghoed Moel Famau ar y ffordd	12.30
13.30		14.00
14.30		15.00
15.30	↓	16.00
16.30		17.00

Safleoedd Bysiau: Maes parcio (golygfan) Pen Barras, maes parcio Coed Famau a mynediad maes parcio Loggerheads



Beth am aros ychydig hirach ac ymweld ag un o'n safleoedd hanesyddol?

	Plas Newydd LL20 8AW	Nantclwyd y Dre LL15 1DP	Carchar Rhuthun LL15 1HP	Amgueddfa'r Rhyl LL18 3AA	Llyfrgell Dinbych LL16 3NU
ION				Ionawr y 6ed - Mawrth y 30ain	
CHWE				Prosiect yr LMS Patriot	
MAW	Mawrth y 1af - 31ain Prosiect Gardd Ysgol Dinas Bran				
EBR	Ebrill y 1af - Mai'r 6ed Groundwork - Arddangosfa Archwilio'r Awyr Agored	Ebrill y 1af - Gorffennaf y 1af Prosiect		Ebrill yr 2il - Mehefin y 30ain Arddangosfa	
MAI	Mai y 8fed - 31ain Arddangosfa Rhyddid y Marc - Gill Crozier a Janie McLeod - arddangosfa gelf	Goleuadau Giatiau Sant Pedr		Gymunedol wedi ei gyflwyno gan blant Parc Chwarae Antur y Rhyl	
MEH	Mehefin 2il - 30ain Mick Stokes Coed ar Dân - cerfio coed				
GOR	Gorffennaf 3ydd - 30ain Jan Willis Celf Tecstilau	Gorffennaf y 6ed - Medi'r 30ain	Gorffennaf y 1af - Hydref yr 31ain	Gorffennaf yr 2il - Medi'r 29ain Arwyr Lleol Rhyfel a Heddwch yn Sir Ddinbych	28ain - Medi'r 9fed Chwaraeon yn Sir Ddinbych
AWS	Awst 2il - 31ain Archaeoleg Gymunedol Sir Ddinbych	Sir Ddinbych yn yr Oesoedd Canol			
MED	Medi 4ydd - 30ain Arddangosfa Gelf Lorraine Mainelli	a Llong Casnewydd			
HYD	Hydref 3ydd - 31ain Arddangosfa ddillad Theatr Gwisgoedd			Hydref y 1af 2012 - Ionawr y 5ed 2013 Sir Ddinbych yn yr Oesoedd Canol	
RHAG TACH	 Sganiwch y cod i weld mwy o 'lefydd arbennig yn Sir Ddinbych'				

Mwy o ddigwyddiadau gwych a gwybodaeth

www.eventsnorthwales.co.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

☎ 01352 810614/586
loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
www.cefngwladssirdinbych.org.uk
www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.ygrugarcaerau.co.uk

Canolfan Bryniau Clwyd ym Mharc Gwledig Loggerheads

Man cychwyn perffaith i droedio Loggerheads
yn ogystal â Moel Famau, Ardal o Harddwch
Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a'r fro. Mae
mapiau, llyfrau, anrhegion, gwybodaeth i
ymwelwyr a gweithgareddau hwyliog ar gyfer
plant ar gael yn y Ganolfan. Ar agor ar
benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
☎ 01352 810586.

Caffi Florence ym Mharc gwledig Loggerheads

Bwyd a diod lleol a thymhorol.
Cyrsiau coginio a gweithdai ardderchog
☎ 01352 810538
info@caffiflorence.co.uk /
www.caffiflorence.co.uk

Llety a phethau i'w gwneud

www.visitclwydianrange.co.uk
www.ridetheclwyds.com
www.ridehiraethog.com
www.borderlands.co.uk
www.specialplacesindenbighshire.co.uk

Clwb Archeoleg i'r Ifanc

Os ydych chi rhwng 8 ac 16 oed ac â
diddordeb mewn archaeoleg, ymunwch â
Clwb Archeolegwyr Ifanc sydd wedi ei drefnu
gan Gyngor Archaeoleg Brydeinig.
loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk

Clwb Cerrig

Clwb leuenctid y Gymdeithas Ddaeargwyr ar
gyfer yr holl ddaeargwyr ifanc sydd â
diddordeb mewn cerrig, ffosilau, mwynau a
thirwedd. ☎ 0207 734 5398
www.rockwatch.org.uk
rockwatchatga@btinternet.com

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig

☎ 01490 420463
www.hiraethog.org.uk

Cyrsiau Coetir a Chrefftau'r Goedwig

yn y Warren, Bodfari. ☎ 01745 710626 neu
ewch i: www.woodlandskillscentre.co.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint

☎ 01244 814931
countryside@flintshire.gov.uk
www.sirfflint.gov.uk/cefngwlad

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

☎ 0300 068 0300
Swyddog Addysg 01352 810796
www.forestry.gsi.gov.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Wrexham

☎ 01978 763140
countryparks@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk/countryside

Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy

☎ 01492 575200
www.conwy.gov.uk/cefngwlad

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru

☎ 01352 810469/07764 897412
acljones@wildlifetrustswales.org
www.northwaleswildlifetrust.org.uk

Cymdeithas y Cerddwyr

☎ 01352 715723
www.ramblersnorthwales.org.uk

Bywyd Gwylt Gogledd Ddwyrain Cymru

☎ 01352 742115/238
cweo@newwildlife.org.uk
www.newwildlife.org.uk

RSPB

☎ 0151 336 7681
www.rspb.org.uk

Cadwraeth Glöynnod Byw Gogledd Cymru

www.northwalesbutterflies.org.uk

Teithiau Tywys Bathodyn Gwyrdd

Teithiau cerdded ar gyfer unigolion a grwpiau.
Heather Williams ☎ 01824 704998
E-bost: heathermbwilliams@btinternet.com
www.heritagetoursnorthwales.com

Sir Ddinbych



AHNE Bryniau Clwyd
a Dyffryn Dyfrdwy



LLUN FAP O FFRYNIAU CLWYD

am gyflle i ennill

Dychwelwch yr holiadur, wedi ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2012

PLYGWCH YMA

Dodwch
stamp
yma

Gwasanaethau Ymwelwyr

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Parc Gwledig Loggerheads

GER Yr Wyddgrug

Sir Ddinbych

CH7 5LH

PLYGWCH YMA

I wybod mwy am Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych cliciwch i ddweud
eich bod yn  ein tudalen facebook neu ffoniwch 01352 810614

www.cefngwladsirddinbych.org.uk



Gobeithio’ch bod chi wedi mwynhau ein rhaglen ‘O Gwmpas’.
Os cwblhewch yr holidur hwn cewch gyfle i Ennill Llun Fap o Fryniau Clwyd.

Plygwch, atodwch stamp a dychwelyd os gwelwch yn dda.

1. Ble gawsoch gopi ‘O Gwmpas’?

2. Pa ddigwyddiadau sydd o ddiddordeb ichi? Oes unrhyw rai eraill y gallwn eu cynnwys?

3. Fuoch chi’n ymweld ag unrhyw rai o’r safleoedd Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn ystod 2011?

- ☐ Loggerheads
- ☐ Moel Famau
- ☐ Coed Nercwys
- ☐ Castell Dinas Bran
- ☐ Llwybr Clawdd Offa
- ☐ Rhuddlan NR
- ☐ Caer Drewyn
- ☐ Pwll Dŵr Brickfields
- ☐ Eraill

4. Oedd ffurf newydd ‘O Gwmpas’ yn hawdd ei ddilyn a’i ddarllen?

- ☐ Oedd
- ☐ Nag oedd

5. Ydych chi wedi mwynhau darllen O Gwmpas?

- ☐ Do
- ☐ Naddo

6. Ydych chi o’r farn bod gennych gwell cysylltiad gyda’ch treftadaeth Bryngaerau a Rhostiroedd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nag ydw

☐ Ticiwch y blwch os rydych yn dymuno derbyn gwybodaeth am Gefn Gwlad Sir Ddinbych yn rhoelaidd

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____ Ffôn _____

Ebost _____

Caiff y manylion eu defnyddio gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn unig ac ni chânt eu hanfon at unrhyw sefydliad arall.